

Pwy ydy pwy?

Mr Rhodri Jones Pennaeth




Mr Dyfan Jones Dirprwy

Mr Sion Owen Cydlynnydd yr Adran ADY



*Miss Manon Davies Arweinydd y Cyfnod Sylfaen
ac athrawes dosbarth Y Plas*

Miss Delyth Dempsey Athrawes dosbarth Y Pant




Miss Esther Richards Athrawes dosbarth Y Wern

*Mrs Sarah Kelsall Rheolwr busnes
ac ysgrifenyddes yr ysgol*



Mrs Heulwen Williams Athrawes gerdd

Miss Charlotte Pemberton Arweinydd sesiynau amser cylch




*Miss Lowri Jarvis Cymhorthydd dosbarth Y Wern ac
arweinydd sesiynau cymorth cyntaf*

Miss Catrin Bonds Cymhorthydd dosbarth Y Plas



Miss Eleri Evans Cymhorthydd dosbarth Y Pant

Miss Delyth Hughes Cymhorthydd dysgu



Miss Jemma Williams Cymhorthydd dysgu



Cyswilt adref

Yn ogystal â'r 'Llyfr Prysur', byddwn yn gosod her i'r plant i'w wneud ar Google Classrooms i'w wneud yn wythnosol a bydd yn cael ei osod bob dydd Mawrth. O bryd i'w gilydd fe welwch luniau wedi eu llwytho gennym o'r plant yn gwneud gweithgareddau ac mi fuasem wrth ein boddau petaech yn gwneud yn yr un modd. Bydd ffolderi darllen yn mynd adref ar ddydd Gwener a byddwn yn ddiolchgar pe baech yn eu dychwelyd ar y dydd Llun canlynol os gwelwch yn dda.

Byrbryd

Côst byrbryd fydd £1 yr wythnos a bydd angen rhoi yr arian mewn amlen os gwelwch yn dda. Byddwn yn dilyn rheolau hylendid, iechyd a diogelwch wrth i ni baratoi a rhannu'r ffrwythau gyda'r plant.

Gwisg Addysg Gorfforol ac Ysgol y Goedwig

Ar y diwrnodau a nodir ar y cerdyn magedig, bydd angen i'ch plentyn ddod i'r ysgol yn eu gwisg addysg gorfforol ac mewn dillad sy'n addas i'w cael eu baeddu ar gyfer eu sesiwn Ysgol y Goedwig. Buasai'n wych os all eich plentyn ddod ag esgidiau glaw gyda nhw hefyd.

Llwyddiant

Ein gweledigaeth ni yw i bob plentyn fod â'r hyder i wneud eu gorau glas ac i gyrraedd eu llawn potensial. Byddwn yn hybu hyn drwy gyflwyno a gweithredu Meddylfryd Twf, canolbwyntio ar bŵer dysgu bob wythnos a hybu ymddygiad bositif gyda system goleuadau traffig ym mhob dosbarth. Fel cymhelliant, bydd sticeri, tocynnau llwyddiant a thystysgrifau di-ri yn cael eu hanfon adref, heb anghofio 'Amser Aur' ar brynhawniau Gwener!

Mae tyfiant pawb yn wahanol



Yn bwysicach nac oll, cofiwch, rydym yma i chi. Unrhyw gwestiwn, unrhyw beth yn eich poeni, dim bwys pa mor bitw mae'n teimlo, cysylltwch â ni ar bob cyfri'. Fel ddywed y dywediad - 'Mewn Undod y mae Nerth!'

Gwybodaeth Ychwanegol i rieni Blwyddyn 1 a 2

